# 8 THE WELSH GROUP SHOWS 2024/25

'Welsh Group 8 Shows' is one project consisting of eight exhibitions that allow groups of artists to coalesce around particular visual ideas, subjects or themes.

The idea for a project comprising a number of satellite shows started to form in my imagination shortly after becoming chair of the Welsh Group. Through getting to know members better, I became aware of the the ideas and ambitions of members of the group, the distinct artistic personalities of each member. Artists who have worked with ideas over many years; sculptors who give ideas weight and heft, and others who construct site-specific structures that interact with insects, decay and decomposition; and artists whose work only exists in the virtual world. Ideas and practice that can't be contained in a single mixed exhibition. So the idea of a series of exhibitions curated by artists, that served the art and the artist began to take shape.

This year-long project begins in March 2024 at Queen Street Gallery in Neath, and ends in a site-specific project in woodland near LLandysul in the Spring of 2025. As well as getting work out of the studio and into the gallery, this project has a political aspect: we want to show in places away from the centre, and to support the work of galleries outside of the centres of culture, by bringing serious and contemporary visual arts and ideas to areas of Wales outside of Cardiff.

The Welsh Group, a long-standing artists' collective established in 1948, is an important part of the story of art in Wales. Many of our members have work in collections here including the Glyn Vivian, the National Museum of Wales and the National Library of Wales, as well as elsewhere in the UK including the V&A. Our members also have a longstanding record of exporting Welsh visual culture, with work in many public collections as prominent as Musee d'Angers in France, the Kunstpalast in Dusseldorf and the Kunsthalle in Mannheim to name a few.

Though I am aware of the differences and distinctiveness of the work of other Welsh Group members I am interested in seeking out the ideas that we have in common, the places where practice overlaps; it's exactly what 'Welsh Group 8 Shows' is about.

"Every collaboration helps you grow." (Brian Eno)

*Paul Edwards, Chair, The Welsh Group*

1 **ABOUT TIME** 2 – 30 March 2024 Queen Street Gallery @ Studio 40, Neath, SA11 1DL
2 **WHERE ARE WE NOW?** 23 March – 13 April 2024 Oriel Canfas, Cardiff, CF5 1QS
3 **GENIUS LOCI** 2 – 20 July 2024 Oriel Canfas, Cardiff, CF5 1QS
4 **MAKING SPACE / SHAPING SPACE** 6 November – 30 December 2024 West Wharf Gallery, Cardiff, CF1 5DB
5 **SEEN AND UNSEEN** 8 November – 1 December 2024 Bay Art, Cardiff Bay, CF10 5AF
6 **WITNESS** Screening 6 December 2024 Online project
7 **UNEXPECTED** 20 March – 26 April 2025 Studio Cennen, Ffairfach, Llandeilo, SA19 6UH
8 **IN THE LANDSCAPE** 4 April – 9 May 2025 Blaen Cwm Cadifor, Llandysul, Ceredigion, SA44 4PB

Published in 2024 by The Welsh Group. Details of all 8 shows can be found on the Welsh Group's website.

www.thewelshgroup-art.com
@WelshGroup @The_Welsh_Group

Text © the authors
Cyfieithiad Steffan Rhys Williams
Catalogue design Sue Hiley Harris

# 8 Y GRŴP CYMREIG SIOE 2024/25

Mae 'Grŵp Cymreig: 8 Sioe' yn un prosiect sy'n cynnwys wyth arddangosfa sy'n caniatáu i grwpiau o artistiaid ymgynnull o amgylch syniadau, pynciau neu themâu gweledol penodol..

Datblygodd y syniad am brosiect sy'n cynnwys nifer o sioeau lloeren yn fy nychymyg yn fuan ar ôl dod yn gadeirydd y Grŵp Cymreig. Trwy ddod i adnabod aelodau'n well, des i'n ymwybodol o syniadau ac uchelgeisiau aelodau'r grŵp, personoliaethau artistig unigryw pob aelod. Artistiaid sydd wedi gweithio gyda syniadau dros nifer o flynyddoedd; cerflunwyr sy'n rhoi swmp i syniadau, ac eraill sy'n adeiladu strwythurau safle-benodol sy'n rhyngweithio â phryfed, pydredd a dadelfeniad; ac artistiaid y mae eu gwaith ond yn bodoli yn y byd rhithwir. Syniadau ac arferion na ellir eu cynnwys mewn un arddangosfa gymysg. Felly eginodd syniad am gyfres o arddangosfeydd wedi'u curadu gan artistiaid, a fyddai'n gwasanaethu'r gelf a'r artist.

Mae'r prosiect blwyddyn o hyd yn dechrau ym mis Mawrth 2024 yn Oriel Queen Street yng Nghastell-nedd, ac yn gorffen gyda phrosiect safle-benodol mewn coetir ger Llandysul yng Ngwanwyn 2025. Yn ogystal â mynd â gwaith allan o'r stiwdio ac i'r oriel, mae gan y prosiect hwn agwedd wleidyddol: rydym am arddangos mewn llefydd i ffwrdd o'r canol, a chefnogi gwaith orielau y tu allan i'r canolfannau diwylliant, drwy ddod â chelfyddydau a syniadau gweledol difrifol a chyfoes i ardaloedd o Gymru y tu allan i Gaerdydd.

Mae'r Grŵp Cymreig, cydweithfa artistiaid hirsefydlog a sefydlwyd ym 1948, yn rhan bwysig o stori celf yng Nghymru. Mae gan lawer o'n haelodau waith mewn casgliadau yma gan gynnwys Glyn Vivian, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn ogystal â mannau eraill yn y DU gan gynnwys y V&A. Mae gan ein haelodau hanes hirsefydlog o allforio diwylliant gweledol Cymru, gyda gwaith mewn llawer o gasgliadau cyhoeddus amlwg fel Musee d'Angers yn Ffrainc, y Kunstpalast yn Dusseldorf a'r Kunsthalle ym Manheim dim ond i enwi rhai.

Er fy mod yn ymwybodol o wahaniaethau a hynodrwydd gwaith aelodau eraill y Grŵp Cymreig, mae gen i ddiddordeb mewn dod o hyd i'r syniadau sy'n gyffredin i ni i gyd, y llefydd lle mae ymarfer yn gorgyffwrdd; dyma hanfod 'Y Grŵp Cymreig: 8 Sioe'.

"Mae pob cydweithrediad yn eich helpu i dyfu." (Brian Eno)

*Paul Edwards, Cadeirydd, Y Grŵp Cymreig*

1 **YNGHYLCH AMSER** 2 – 30 Mawrth 2024 Oriel Queen Street @ Stiwdio 40, Castellnedd, SA11 1DL
2 **BLE YDYN NI NAWR?** 23 Mawrth – 13 Ebrill 2024 Oriel Canfas, Caerdydd, CF5 1QS
3 **ATHRYLITH LOCI** 2 – 20 Gorffennaf 2024 Oriel Canfas, 44a Glamorgan Street, Caerdydd, CF5 1QS
4 **CREU GOFOD / SIAPIO GOFOD** 6 Tachwedd – 30 Rhagfyrr 2024 Oriel West Wharf, Caerdydd, CF1 5DB
5 **YN WELEDIG AC ANWELEDIG** 8 Tachwedd – 1 Rhagfyrr 2024 Bay Art, Bae Caerdydd, CF10 5AF
6 **TYST** Sgrinio 6 Rhagfyr 2024 Prosiect ar-lein
7 **ANNISGWYL** 20 Mawrth – 26 Ebrill 2025 Stiwdio Cennen, Ffairfach, Llandeilo, SA19 6UH
8 **YN Y DIRWEDD** 4 Ebrill – 9 Mai 2025 Blaen Cwm Cadifor, Llandysul, Ceredigion, SA44 4PB

Cyhoeddwyd yn 2024 gan y Grŵp Cymreig. Mae manylion am yr 8 sioe ar wefan y Grŵp Cymreig.

www.thewelshgroup-art.com
@WelshGroup @The_Welsh_Group

Testun © yr awduron
Cyfieithiad Steffan Rhys Williams
Dylunio catalog Sue Hiley Harris

## ON HINGES

This year, the Welsh Group present eight exhibitions. In 'Seen and Unseen', Mary Husted's collage quotes Patrick White, describing a world that opens and closes on hinges, like those of a butterfly's wings. A dreamworld revealed in glimpses. The artworks across all the exhibitions this year push and pull on similar hinges, open us up to different realms of perception, feelings we can't quite put our finger on; revealing fragments of other worlds where mystery waits, suspended.

Pull

The 'Unexpected' exhibition bursts with twisted perspectives. Thomasin Toohie's engorged chimneys and human-sized birds meet Gustavius Payne's *The Cause and Effect Hypothesis*, a dream-like existence that seems to be waiting just beneath the surface of the life we know.

From Pip Woolf ('About Time'), endless squares of paper fan out like frills of fungi, flopping spirals reaching to the ceiling.

In *Walking Dream* ('Seen and Unseen'), Maggie James shows us glimpses of cityscape that seem to swim amongst leaves and a deepening, watery blue. All elements blend, the lines of the buildings and branches mirrored in the strokes of the sky.

Push

Movement waits quietly within the curves of Sue Roberts' carved *Venus Figures* ('Genius Loci'). A comforting plumpness to them, it's as if you can almost hear their conversation. And if you picked them up, they might feel warm.

Jennifer Allan ('About Time') paints a woman trapped in endless reflections between two mirrors, a child watching on. A small, everyday moment that seems to stretch out through time.

Lynne Bebb's newspaper people climb spy-like from a huge pot ('Unexpected'). Their bodies made of words, they are mouthless, silent.

Pull

There is something bodily about the way one of Robert Harding's objects bulges with coins beneath a metal skin ('Making Space / Shaping Space'). The sculptures hang exposed, shining softly.

A painting by Kay Keogh ('Where are we now?') conjures up images of gold gleaming in the dark, a dusky dinner table, or a strange industrial landscape. The whole image seems threaded with lines that threaten to break it all apart.

Paul Edwards' video ('Witness') urges us to explore the freedom in looking at a shadow, as opposed to the object that casts it. In shadows, we are free to decide what we are seeing.

Push

In Alan Salisbury's *Delicate Fauna* ('Unexpected'), dried leaves become trees, leaning towards each other against the fog, as if for comfort.

With Angela Kingston ('Genius Loci'), the transformation from tree to paper seems immediate, bark curling from the page like scrolls.

In Philip Watkin's *M5* ('About Time'), a foggy motorway sucks us into a journey without end; time is dampened, heavy.

Jacqueline Jones' *Man of hot colours* ('Where are we now?') stands on a wet shoreline, cool repetitions of his head behind him in the sand. It brings to mind the immediacy of our present, the echoes of the past, the chill that can linger.

Some of the work from these artists tugs at me, leads me to new perspectives. Some push on dormant memories, feelings I've left unexplored. You could view the eight exhibitions on their own, or you could try to see them all this year, find your own threads weaving through, see how each adds its weight to the push and pull.

*Lucy Smith*

Lucy Smith is a short fiction writer and teacher based in South Wales. Her work has been published in print and online and she has collaborated on various projects with visual and sound artists. lucysmithwriter.com @lucysmithwriter

## AR GOLYNNAU

Eleni, mae'r Grŵp Cymreig yn cyflwyno wyth arddangosfa. Yn 'Yn Weledig ac Anweledig' mae collage Mary Husted yn dyfynnu Patrick White, gan ddisgrifio byd sy'n agor ac yn cau ar golyn, fel rhai adenydd glöyn byw. Datgelir byd breuddwydion mewn cyfres o gipolygon. Mae'r gweithiau celf ar draws yr holl arddangosfeydd eleni yn gwthio a thynnu colynnau tebyg, yn ein hagor i wahanol fydoedd o ganfyddiad, teimladau na allwn roi ein bys arnynt; gan ddatgelu darnau o fydoedd eraill lle mae dirgelwch yn aros, yn hongian.

Tynnu

Mae'r arddangosfa 'Annisgwyl' yn byrlymu â safbwyntiau dirdroadol. Mae simneiau chwyddedig ac adar maint dynol Thomasin Toohie yn cwrdd â *The Cause and Effect Hypothesis* gan Gustavius Payne, bodolaeth freuddwydiol sydd fel petai'n llechwra ychydig o dan wyneb y bywyd rydyn ni'n ei nabod.

Yng ngwaith Pip Woolf ('Ynghylch Amser'), mae sgwariau diddiwedd o bapur yn gwyntyllu allan fel ffriliau o ffyngau, troellau llipa sy'n cyrraedd y nenfwd.

Yn *Walking Dream* ('Yn Weledig ac Anweledig'), mae Maggie James yn rhoi cipolygon i ni ar ddinaslun sy'n ymddangos fel pe bai'n nofio ymhlith dail a glas dyfrllyd sy'n dyfnhau. Mae pob elfen yn asio, llinellau'r adeiladau a'r canghennau wedi'u hadlewyrchu yn nhrawiadau'r awyr.

Gwthio

Mae symudiad yn llechwra'n dawel bach o fewn cromliniau cerfiedig Sue Roberts yn *Venus Figures* ('Athrylith Loci'). Mae 'na raen cysurlon iddyn nhw; rydych chi bron yn gallu clywed eu sgwrs. A phetaech chi'n eu codi, mae'n siŵr y bydden nhw'n gynnes.

Mae Jennifer Allan ('Ynghylch Amser') yn peintio dynes sydd wedi'i dal mewn adlewyrchiadau diddiwedd rhwng dau ddrych, gyda phlentyn yn gwylio. Moment fach, feunyddiol, sy'n ymddangos i ymestyn allan trwy amser.

Mae pobl papur newydd Lynne Bebb yn dringo fel ysbïwyr o botyn enfawr ('Annisgwyl'). Mae eu cyrff wedi eu gwneud o eiriau; nid oes cegau ganddynt, maen nhw'n fud.

Tynnu

Mae rhywbeth corfforol am y ffordd mae un o wrthrychau Robert Harding yn chwyddo â darnau arian o dan groen metel ('Creu Gofod / Siapio Gofod'). Mae'r cerfluniau'n hongian yn agored, yn goleuo'n egwan.

Mae paentiad gan Kay Keogh ('Ble ydyn ni nawr?') yn consurio delweddau o aur yn tywynnu yn y tywyllwch, bwrdd bwyta tywyll, neu dirwedd ddiwydiannol ryfedd. Mae'r ddelwedd gyfan fel petai wedi'i rhannu gan linellau sy'n bygwth torri'r cyfan yn ddarnau.

Mae fideo Paul Edwards ('Tyst') yn ein hannog i archwilio'r rhyddid wrth edrych ar gysgod, yn hytrach na'r gwrthrych sy'n ei fwrw. Mewn cysgodion, rydym yn rhydd i benderfynu beth rydyn ni'n ei weld.

Gwthio

Yn *Delicate Fauna* gan Alan Salisbury ('Annisgwyl'), daw dail sych yn goed, yn pwyso tuag at ei gilydd yn erbyn y niwl, er cysur.

Gydag Angela Kingston ('Athrylith Loci'), mae'r trawsnewidiad o goeden i bapur yn ymddangos yn ddi-oed, gyda rhisgl yn crychu o'r dudalen fel sgroliau.

Yn *M5* gan Philip Watkin ('Ynghylch Amser'), mae traffordd niwlog yn ein sugno i mewn i daith heb ddiwedd; mae amser yn bŵl, yn drwm.

Mae *Man of hot colours* Jacqueline Jones ('Ble ydyn ni nawr?') yn sefyll ar draethlin wleb, gydag ailadroddiadau oeraidd o'i ben y tu ôl iddo yn y tywod. Mae'n dwyn i gof uniongyrchedd ein presennol, adleisiau'r gorffennol, yr oerfel a all loetran.

Mae rhai o'r gweithiau gan yr artistiaid hyn yn fy nhywys at safbwyntiau newydd. Mae rhai'n gwthio ar atgofion segur, teimladau dwi wedi eu gadael heb eu harchwilio. Fe allech chi weld yr wyth arddangosfa yn annibynnol ar ei gilydd, neu fe allech chi geisio eu gweld nhw i gyd eleni, dod o hyd i'ch llinynnau eich hun yn gwau drwyddynt, gweld sut mae pob un yn ychwanegu ei swmp at y gwthio a'r tynnu.

*Lucy Smith*

Mae Lucy Smith yn awdur ffuglen fer ac athro sy'n gweithio yn Ne Cymru. Mae ei gwaith wedi'i gyhoeddi mewn print ac ar-lein ac mae wedi cydweithio ar brosiectau amrywiol gydag artistiaid gweledol a sain. lucysmithwriter.com @lucysmithwriter